# Y Pwyllgor Cyllid
# Ymchwiliad ynghylch Cyllido Addysg Uwch

## Crynodeb o’r Arolwg ar yr Ymchwiliad ynghylch Cyllido Addysg Uwch

## Cefndir

Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion a gafwyd i’r arolwg ar yr Ymchwiliad ynghylch Cyllido Addysg Uwch a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth.

## Methodoleg

Fel rhan o Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru, cynhaliodd y Tîm Allgymorth arolwg ar-lein ac ar bapur. Gofynnwyd i’r rhai a gymerodd ran ateb ystod o gwestiynau a oedd yn ymwneud â’u hystyriaethau ariannol cyn penderfynu mynd i addysg uwch ac effeithiolrwydd y grant ffioedd dysgu sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd.

Lluniwyd dau arolwg, a oedd yn targedu:

– Myfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn gyntaf neu eu hail flwyddyn sy’n astudio mewn prifysgolion a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a myfyrwyr o Gymru sydd yn eu blwyddyn gyntaf neu eu hail flwyddyn ac sy’n astudio yn Lloegr.

– Darpar-fyfyrwyr israddedig ym mlynyddoedd 12 a 13 (neu’r flwyddyn gyfatebol) mewn ysgolion, colegau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach yng Nghymru

Er gwybodaeth, oherwydd y nifer fawr o ymatebion a gafwyd gan fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, mae’r Tîm Allgymorth wedi paratoi ffigurau ar wahân sy’n hepgor pob ymateb gan Brifysgol Caerdydd. Fodd bynnag, o ddadansoddi’r rhain, gwelwyd nad oedd yr amrywiad ystadegol rhwng y ddwy gyfres o ddata byth yn fwy na +/- 4.5%, a bod yr amrywiad ym mwyafrif yr achosion o fewn y lwfans gwallau, sef +/- 3%. Mae dadansoddiad o’r ffigurau (gan hepgor ymatebwyr Prifysgol Caerdydd) i’w weld yn Atodiad 1.

## Codi Ymwybyddiaeth

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r arolwg a denu cyfranogwyr, cysylltodd y Tîm Allgymorth ag ystod eang o brifysgolion, ysgolion, colegau a sefydliadau. Gallai’r rhai y cysylltwyd â hwy godi ymwybyddiaeth mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys rhoi erthyglau ar wefannau; tynnu sylw ar gyfryngau cydmeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter; ac anfon negeseuon e-bost yn uniongyrchol at gyfranogwyr.

Roedd y grwpiau a ganlyn yn gallu codi ymwybyddiaeth am yr arolwg:

– Cyfanswm o wyth prifysgol yng Nghymru

– Cyfanswm o 23 prifysgol yn Lloegr (o fewn 100 milltir i ffin Cymru)

– Cyfanswm o 12 coleg Addysg Bellach ledled Cymru

– Cyfanswm o wyth sefydliad sy'n gweithio yn y sector Addysg Uwch/Addysg Bellach

Bu staff y Cynulliad hefyd yn hyrwyddo'r arolygon ymysg grwpiau perthnasol a oedd yn ymweld â'r Senedd ac a oedd yn destun ymweliadau addysg, a phan fu cynrychiolwyr y Cynulliad mewn sioeau haf

Er gwybodaeth, mae dadansoddiad llawn o'r grwpiau, sefydliadau a'r cyrff y cysylltwyd â hwy i'w weld yn yr atodiad.

## Ystadegau Allweddol


**1345**Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg

**765** Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg gan fyfyrwyr presennol


**580** Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg gan ddarpar-fyfyrwyr

## Crynodeb Daearyddol o'r Ymatebion


**Nifer yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan fyfyrwyr presennol prifysgolion neu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr.**




**Cod post cartref y rhai a ymatebodd i'r arolwg (gan gynnwys myfyrwyr presennol prifysgolion neu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr yn unig).**




**Nifer yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan ddarpar-fyfyrwyr (blynyddoedd 12 a 13 neu flwyddyn gyfatebol), wedi'i dadansoddi yn ôl rhanbarth etholaethol.**



# Crynodeb o'r Ymatebion – Myfyrwyr Prifysgolion


**Cwestiwn 1 – A wnaeth y grant ffioedd dysgu ar gael gan Lywodraeth Cymru eich annog i wneud cais am le mewn prifysgol?**

- Do: **75.6% (573)**
- Naddo: **18.9% (143)**
- Ddim yn siŵr: **5.5% (42)**





**Cwestiwn 2 – Pe baech wedi gorfod talu'r ffioedd dysgu llawn (hyd £9,000) a fyddai hyn wedi effeithio ar eich penderfyniad i wneud cais am le mewn prifysgol?**

- Byddai – Fyddwn i ddim wedi gwneud cais am le mewn prifysgol: **20.1% (152)**
- Byddai – Byddwn yn llai tebygol o fod wedi gwneud cais am le mewn prifysgol: **43.1% (327)**
- Na fyddai – Byddwn i wedi gwneud cais am le mewn prifysgol beth bynnag: **31.5% (239)**
- Ddim yn siŵr: **5.3% (40)**



**Cwestiwn 3 – (ar gyfer myfyrwyr Cymreig sy'n astudio mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru) Pe bai'r grant ffioedd dysgu yn berthnasol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru yn unig, sut y byddai hyn wedi effeithio ar eich penderfyniad ynghylch pa brifysgol y byddech chi'n gwneud cais iddi?**

- Dim effaith - roeddwn i eisoes yn bwriadu gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru yn unig: **60.9% (367)**
- Byddwn wedi newid fy nghynlluniau ac wedi gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru yn unig: **29% (175)**
- Arall: **10.1% (60)**





## Cwestiwn 3 – Sylwadau



### Cwestiwn 4 – (ar gyfer myfyrwyr Cymreig sy'n astudio mewn Sefydliad Addysg Uwch yn Lloegr) Pe bai'r grant ffioedd dysgu yn berthnasol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru yn unig, sut y byddai hyn wedi effeithio ar eich penderfyniad ynghylch pa brifysgol y byddech chi'n gwneud cais iddi?

- Byddwn wedi newid fy nghynlluniau i astudio y tu allan i Gymru ac wedi gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru yn unig: **42.2% (86)**
- Fyddwn i ddim wedi gwneud cais am le mewn prifysgol. Yn lle hynny, byddwn wedi dilyn llwybrau addysg eraill neu lwybrau cyflogaeth: **14.7% (30)**
- Byddwn wedi gwneud cais i'r brifysgol o'm dewis, p'un a fyddwn yn cael grant ffioedd dysgu neu beidio: **28.4% (58)**
- Arall: **14.7% (30)**





### Cwestiwn 4 – Sylwadau




**Cwestiwn 5 – A ddylai grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru gael ei gynnig i holl fyfyrwyr ble mae eu cyfeiriad cartref yng Nghymru, beth bynnag yw eu amgylchiadau ariannol?**

- Dylai: **78.5% (588)**
- Na ddylai: **21.5% (161)**




Cafwyd cyfanswm o 199 o sylwadau ychwanegol; ceir crynodeb ohonynt ar y dudalen nesaf.

## Cwestiwn 5 – Sylwadau Ychwanegol







* Eglurhad cryno = ym mis Rhagfyr 2012, nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru na fydd ei dull gweithredu presennol yn cyfyngu ar y broses o recriwtio myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a'r UE, na myfyrwyr o weddill y DU, ond bydd yn cyfyngu ar yr incwm grant ffioedd cysylltiedig.

**Eglurhad cryno = Caiff Grant Dysgu'r Cynulliad ei gyfrifo drwy brawf modd ar sail incwm presennol aelwyd y myfyriwr ac incwm presennol aelwyd ei rieni neu bartner.

## Crynodeb o'r Ymatebion – Myfyrwyr Blynyddoedd 12 a 13


**Cwestiwn 1 – A yw'r ffaith bod grant ffioedd dysgu ar gael gan Lywodraeth Cymru yn eich annog i fynd i brifysgol?**

- Ydy: **81.2% (469)**
- Nac ydy: **7.1% (41)**
- Ddim yn siŵr: **11.8% (68)**





**Cwestiwn 2 – Pe bai'n rhaid i chi dalu'r ffioedd dysgu llawn (hyd £9,000) a fyddai hyn yn effeithio ar eich penderfyniad i wneud cais am le mewn prifysgol?**

- Byddai - Fyddwn i ddim yn gwneud cais am le mewn prifysgol: **21% (121)**
- Byddai - Byddwn yn llai tebygol o wneud cais am le mewn prifysgol: **44.6% (257)**
- Na fyddai - Byddwn yn dal i wneud cais am le mewn prifysgol yn y DU: **23.6% (136)**
- Na fyddai - Byddwn yn dal i wneud cais am le mewn prifysgol yn Ewrop neu dramor: **4% (23)**
- Ddim yn siŵr: **6.8% (39)**




**Cwestiwn 3 – Pe bai'r grant ffioedd dysgu yn berthnasol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru yn unig, a fyddai hyn yn effeithio ar eich penderfyniad ynghylch pa brifysgol y byddech yn gwneud cais iddi?**

- Byddai – Byddwn yn newid fy nghynlluniau i astudio y tu allan i Gymru ac yn gwneud cais yn lle hynny am le mewn prifysgol yng Nghymru: 39.2% (225)
- Byddai – Fyddwn i ddim yn gwneud cais am le mewn prifysgol rhagor. Yn lle hynny, byddwn yn dilyn llwybrau addysg neu cyflogaeth: 8.9% (51)
- Na fyddai – Roeddwn i eisoes yn bwriadu gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru: 26.1% (150)
- Na fyddai – Byddwn yn dal i wneud cais am le mewn prifysgol y tu allan i Gymru: 20.3% (117)
- Arall: 5.6% (32)





**Cwestiwn 3 - Sylwadau Ychwanegol**




**Cwestiwn 4 – A ddylai grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru gael ei gynnig i holl fyfyrwyr ble y mae eu cyfeiriad cartref yng Nghymru, beth bynnag yw eu amgylchiadau ariannol?**

- Dylai: **82.2% (471)**
- Na ddylai: **17.8% (102)**




## Cwestiwn 5 – Unrhyw sylwadau eraill?



### Cwestiwn 6 – Ym mha flwyddyn ysgol ydych chi?

- Blwyddyn 12: **49.8% (238)**
- Blwyddyn 13 **50.2% (240)**



# Atodiad 1

## Ffigurau cyffredinol, gan hepgor ymatebion o Brifysgol Caerdydd

**A wnaeth y grant ffioedd dysgu ar gael gan Lywodraeth Cymru eich annog i wneud cais am le mewn prifysgol?**

Do: 72.5% (190)

Naddo: 22.5% (59)

Ddim yn siŵr: 5% (13)

**Pe baech wedi gorfod talu'r ffioedd dysgu llawn (hyd £9,000) a fyddai hyn wedi effeithio ar eich penderfyniad i wneud cais am le mewn prifysgol?**

Byddai – Fyddwn i ddim wedi gwneud cais am le mewn prifysgol: 24% (63)

Byddai – Byddwn yn llai tebygol o fod wedi gwneud cais am le mewn prifysgol: 40.3% (106)

Na fyddai – Byddwn i wedi gwneud cais am le mewn prifysgol beth bynnag: 30.8% (81)

Ddim yn siŵr 4.9% (13)

**Ar gyfer myfyrwyr Cymreig sy'n astudio mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru: Pe bai'r grant ffioedd dysgu yn berthnasol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru yn unig, sut y byddai hyn wedi effeithio ar eich penderfyniad ynghylch pa brifysgol y byddech chi'n gwneud cais iddi?**

Dim effaith - Roeddwn i eisoes yn bwriadu gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru yn unig: 62.1% (108)

Byddwn wedi newid fy nghynlluniau ac wedi gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru yn unig: 27% (47)

Arall: 10.9% (19)

**Ar gyfer myfyrwyr Cymreig sy'n astudio mewn Sefydliad Addysg Uwch yn Lloegr: Pe bai'r grant ffioedd dysgu yn berthnasol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru yn unig, sut y byddai hyn wedi effeithio ar eich penderfyniad ynghylch pa brifysgol y byddech chi'n gwneud cais iddi?**

Byddwn wedi newid fy nghynlluniau i astudio y tu allan i Gymru ac wedi gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru yn unig: 38.4% (56)

Fyddwn i ddim wedi gwneud cais am le mewn prifysgol. Yn lle hynny, byddwn wedi dilyn llwybrau addysg eraill neu lwybrau cyflogaeth: 13.7% (20)

Byddwn wedi gwneud cais i'r brifysgol o'm dewis, p'un a fyddwn yn cael grant ffioedd dysgu neu beidio: 31.5% (46)

Arall: 16.4% (24)

**A ddylai grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru gael ei gynnig i holl fyfyrwyr ble y mae eu cyfeiriad cartref yng Nghymru, beth bynnag yw eu amgylchiadau ariannol?**

Dylai: 78.2% (205)

Na ddylai 21.8% (57)